Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 312 (Cymru) - 1 Chwefror 2022

## Etholiadau mis Mai 2022: diweddariad o ran ein canllawiau

Ym Mwletin 311 fe wnaethom amlygu bod gwaith pellach yn cael ei wneud i gwblhau diweddariadau i Ran C o'n canllawiau craidd a'n hadnoddau cysylltiedig i adlewyrchu'r darpariaethau newydd ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 a wnaed ar 14 Rhagfyr.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC), Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru (GYEC), Llywodraeth Cymru a'r AEA, rydym bellach wedi cwblhau a chyhoeddi'r canllawiau hyn, y gallwch eu cyrchu yma.

Mae'r diweddariadau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r broses enwebu er mwyn cefnogi cyflwyno enwebiadau yn electronig a'r gofyniad i ymgeiswyr ddarparu datganiad o aelodaeth plaid. Gyfochr â hyn, rydym ni hefyd wedi cynhyrchu adnodd newydd i'ch cefnogi i gynllunio ar gyfer rheoli enwebiadau electronig ac wedi diweddaru ein templed hysbysiad etholiad, sydd nawr yn amlygu yr angen i gynnwys datganiad dosbarthu electronig.

Mae ein canllaw ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, ar gyfer etholiadau prif ardaloedd ac etholiadau cyngor cymuned hefyd wedi cael ei ddiweddaru yn unol â'r rheolau newydd.

Mae'r rheolau etholiad newydd yn berthnasol i etholiadau 5 Mai 2022 ac wedi hynny. Cysylltwch ag gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk os oes unrhyw isetholiadau yn eich ardal cyn y dyddiad hwnnw a bod angen mynediad i fersiynau blaenorol y canllawiau neu unrhyw ffurflenni.

Rydym yn parhau i weithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill ar draws y gymuned etholiadol i sicrhau bod ein canllaw - gan gynnwys llawlyfr yr orsaf bleidleisio ar gyfer 2022, sydd wrthi yn cael ei ddatblygu - yn parhau i fod yn briodol i'ch cefnogi chi i gyflawni etholiadau Mai 2022 yn llwyddiannus wrth

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2022: diweddariad o ran ein canllawiau**

Gwybodaeth ar a dolenni i'n canllawiau wedi'u diweddaru.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach,**

sefyllfa iechyd cyhoeddus esblygu. Byddwn yn eich diweddaru trwy Fwletinau yn y dyfodol wrth i hyn ddatblygu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon neu hoffech drafod hyn ymhellach cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.electoralcommission.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2022